
Llwybrau Hyrwyddedig Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Lôn Gwyrfai, Rhyd Ddu

**HAWDD**




### Trosolwg o'r Daith

- Pellter: 7km (4.5 milltir)
- Hyd: 3 awr
- Math o daith: Un ffordd


### Cyn i chi gychwyn

Darllenwch y wybodaeth diogelwch a graddio llwybrau ar wefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri cyn i chi gychwyn ar eich taith.

eryri.llyw.cymru



V-20231127/2029




Dechreua'r llwybr gyferbyn â mynediad maes parcio Parc Cenedlaethol Eryri yn Rhyd Ddu.





Pan gyrhaeddwch Llyn y Gadair, ewch ymlaen ar hyd y llwybr gan groesi'r sarn.




Bydd y llwybr yna'n mynd i mewn i Goedwig Beddgelert, sef coedwig goniffer a llydanddail. Mae rhwydwaith eang o lwybrau cyhoeddus yn y goedwig felly gwnewch yn siŵr eich bod yn dilyn arwyddion cyfeirio Lôn Gwyrfai.




Bydd y llwybr yn dod allan o'r goedwig ym Mhont Cae'r Gors. Cymerwch ofal wrth groesi'r rheilffordd.




Wedi dilyn y llwybr i lawr o Bont Cae'r Gors byddwch yn croesi Afon Cwm Du dros hen bont garreg o'r ddeunawfed ganrif a arferai gludo traffig coetsys a cheffylau i Gaernarfon.




Bydd y llwybr yn dringo'n raddol tuag at Hafod Ruffydd Uchaf lle gallwch fwynhau golygfa o'r mynyddoedd o gwmpas. O Hafod Ruffydd Uchaf byddwch yn mynd i lawr am faes gwersylla Coedwig Beddgelert. Bydd y llwybr yn mynd i mewn ag allan o'r goedwig am gyfnod.




Daw'r llwybr allan o'r goedwig ar dir ffermio agored ar odre Moel Hebog, cyn disgyn yn raddol i lawr am Gwm Cloch.




O Gwm Cloch mae'r llwybr yn dilyn y ffordd i lawr am Feddgelert, gan gadw i'r dde cyn bont y rheilffordd i fynd am faes parcio Beddgelert.